# papur priordy



**Un gân o fawl all lunio gwell yfory**
**A byd cytûn na fu ei fath erioed,**
**Ac yn ei swyn cawn chwilio am y fendith**
**A ddaw â harddwch hedd i sŵn ein troed.**
**Dysg ni O Dduw i weithio dros ein gilydd**
**Fel un gymdeithas gyfan yn ddioed.**

**D Jacob Davies (1916-1974)**

***Y Perlau Moliant Newydd*** **(gol. Alun-Wyn Dafis, 1998).**

*Gweler yr erthygl y tu mewn*

**Rhifyn 374**
**PAPUR CHWEFROR 2024**

## GAIR GAN EIN GWEINIDOG

### Her Y Grawys

***GAN*** fod y Pasg yn gynnar eleni, mae'r Grawys yn cychwyn yn gynnar. Dyddiad Mercher Lludw, sef diwrnod cynta'r Grawys yw 14 Chwefror.



Cawn gyfle i droi ein golygon o'r newydd i gyfeiriad Jerwsalem yn ystod y Grawys eleni a chofio am wythnosau olaf bywyd Iesu ar y ddaear hon cyn iddo ddioddef ar Galfaria.

Cyfnod o baratoi yn ysbrydol yw'r Grawys. Ond sut allwn ni ddefnyddio'r cyfnod hwn i baratoi?

Cofiwn yn ystod tymor y Grawys am Iesu yn gwrthsefyll temtasiynau yn yr anialwch. Mae rhai Cristnogion yn defnyddio'r cyfnod hwn i ymwrthod â bwyta ambell fwyd er mwyn uniaethu â phrofiad Iesu yn yr anialwch.


Rydym yn gosod her i'n hunain yn yr Ofalaeth hon yn ystod tymor y Grawys eleni – sef i ymwrthod â bwyta un peth yn arbennig am 40 diwrnod a chyflwyno'r eitem hwnnw o fwyd i'r Banc Bwyd.



Mae rhai o deuluoedd yr Ysgol Sul eisioes wedi cytuno i fod yn rhan o'r her, a rhaglen *Dechrau Canu Dechrau Canmol S4C* yn rhoi sylw i'n her yn y rhaglen ar nos Sul 11 Chwefror. Beth amdani felly?

Rydw i wedi penderfynu rhoi'r gorau i fwyta bara dros gyfnod y Grawys (heblaw am fara Cymun). Wedi'r cwbl, rhaid arwain drwy esiampl. Rwy'n siŵr y bydd y darn tost fore Sul y Pasg yn blasu'n ffeinach nag arfer!

Yn ogystal ag ymgymryd â'r her hon, fe fyddwn hefyd yn paratoi ar gyfer y Pasg wrth droi at y Beibl a chanolbwyntio ar y penodau arbennig sy'n olrhain hanes dioddefaint Crist a threulio ychydig mwy o amser mewn gweddi.



Mae defnyddio tymor y Grawys fel cyfnod i baratoi ar gyfer dathlu'r Pasg yn ddisgyblaeth sydd yn medru dwyn ffrwyth yn ein bywydau ysbrydol.

***POB HWYL*** gyda'r her! Fe fyddwn yn derbyn eich cyfraniadau i'r Banc Bwyd yn ystod mis Mawrth.

## DARLLENIADUR

| Mis Ionawr | Darlleniad |
|---|---|
| Wythnos 1 | Eseia 40: 21-31 |
| Wythnos 2 | 2 Brenhinoedd 2: 1-12 |
| Wythnos 3 | Genesis 9: 8-17 |
| Wythnos 4 | Genesis 17: 1-7, 15-16 |

**CWRDD CHWARTER – HEOL AWST**
**14 Mawrth 2024 – 10.30 /1.30**



**Cyfarfod y Prynhawn**

**Y Parchedig Robin Samuel**

**Apêl Ffynhonnau Byw**

**GWEDDÏWN**
***Gweddi dros y rhai sydd wedi colli swydd***

Dduw, cofia y rhai sydd wedi colli eu gwaith.
Rho iddynt heddwch a hyder mewnol.
Cymer yr ofn a'r gofid o'u calon yn y dyddiau anodd hyn,
a bydd iddynt yn nerth pan maent yn cael eu beichio gan eu rhwystredigaeth.
Atgoffa hwy o'u doniau a'u gallu a oedd yn fodd iddynt lwyddo yn y gorffennol,
ac yn fodd i'w cynnal nhw a'u teuluoedd.
Agor ddrysau iddynt a chyfle i ddatblygu eu sgiliau
neu i gael profiadau a chyfrifoldeb newydd a gwahanol.

**AMEN**

***Gweddi yn 'Addolwch yr Arglwydd', Llyfr Gwasanaethau ar gyfer yr Annibynwyr a'r Bedyddwyr***

**DIOLCH YN FAWR**

***Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad***

**ALLAN A CAERWEN GIBBARD**
**a**
**GWYNN AC ANN BOWYER**

***at gyhoeddi'r Papur y mis hwn***

**YN DYMUNO NODDI PAPUR PRIORDY?**
**Cyswllt**
**PHILIP JONES**
**Trysorydd**
**☎ 01267 233437 / info@maxevans.co.uk**





***YN DYMUNO CYFAMODI?***

**DENNIS JONES**
**YSGRIFENNYDD Y CYFAMODI**

**Croeso i chi gysylltu ag e!**

**Angharad Wyn** …



## OEDFA OFALAETH GYNTA'R FLWYDDYN NEWYDD

***BLWYDDYN NEWYDD DDA!*** Yn ôl traddodiad yn y Priordy, mae teulu gwahanol wastad yng ngofal gwasanaeth cynta'r flwyddyn. Tro'r teulu Woods oedd hi eleni,yng nghwmni Jayne, Ethan a Iestyn.

Roedd hi'n braf hefyd cael cwmni ein ffrindiau o gapeli Cana a Bancyfelin yn yr oedfa.

Arweiniodd Mair Jones o Gana ni i ganu'r emyn cyntaf gyda'n gilydd. Diolch hefyd i Eira Phillips am fod wrth yr organ drwy'r gwasanaeth.

I gyfeiliant y gân "Haleliwia" gan Ethan ar y piano, gwnaed y casgliad gan Cadi, Ifan a Nel. Cafodd y plant air bach gan Beti-Wyn a fu'n siarad am y flwyddyn newydd fel tudalen lân o bapur. Wrth ddal papur â llinellau arno, gofynnodd i ni ddychmygu mai Duw a Iesu oedd y llinellau ac yn eu cwmni nhw, cawn gymorth i lenwi'r flwyddyn hon. Os ddilynwn ni'r llinellau (a dilyn Iesu) drwy wneud y pethau iawn, yna byddwn yn llenwi'r flwyddyn â phethau da.

Ymlaen wedyn at yr emyn nesaf ac Eirian Thomas o Gapel Bancyfelin yn cyhoeddi.




Tro Jayne oedd hi i gymryd yr awennau nesaf. Eglurodd sut aeth ati i benderfynu ar gynnwys yr oedfa. Esboniodd ei bod yn hoff iawn o greu rhestrau (ac yn arbennig o hoff o roi tic drws nesaf i rywbeth ar ôl cwbwlhau'r dasg!). Penderfynodd Jayne ar restr o negeseuon i'w rhannu gyda ni. Y neges gyntaf oedd "byddwch yn drefnus a pharatoi ar gyfer y dyfodol". Defnyddiodd enghraifft y morynion call yn y stori sy'n adnabyddus i ni gyd.

Yr ail neges oedd "byddwch lawen ac edrychwch ymlaen yn bositif i'r dyfodol." Rhywbeth a fyddai'n braf i ni i gyd geisio'i wneud, yn enwedig pan fo pethau'n ymddangos yn anodd ar adegau.

Hoff emyn Ethan a ganon ni nesaf sef 401 yng Nghaneuon Ffydd; Dilyn F’arweinydd, a’r geiriau “y llaw gryfaf gaed sy’n fy nghodi ar fy nhraed drwy y wyrth wnaed ar fryn Calfarî” yn atsain drwy’r capel. Roedd hi’n braf cael clywed hoff emynau’r teulu yn ystod y gwasanaeth a chael gwerthfawrogi eu dewisiadau.

Cyn cyhoeddi’r drydedd neges, cawsom glywed hanes diddorol iawn gan Jayne o’i phrofiadau yn teithio ar hyd Y Llwybr Sidan. Defnyddir y term yma am rwydwaith o ffyrdd a ddefnyddid ar gyfer masnach rhwng Tsieina a’r Dwyrain Canol. Eglurodd Jayne iddi ddysgu sawl peth yn ystod ei theithiau a soniodd yn arbennig am sgyrsiau diddorol iawn gyda gwragedd eraill am addysg yn benodol. Roedd Iestyn yn awyddus iawn hefyd i rannu rhai o’i brofiadau e wrth deithio, yn enwedig ei brofiad o flasu ffrwyth o’r enw Durian. Yn ôl Iestyn, mae ganddo groen pigog, caiff ei adnabod fel brenin y ffrwythau ac mae’n ffrwyth swyddogol i Singapore. Dywedodd Iestyn wrthom bod ganddo arogl cryf iawn ac nid yw pobl yn cael eu cludo ar drafnidiaeth gyhoeddus am y rheswm hwn!! Dywed sawl person fod y profiad o fwyta’r ffrwyth Durian yn un melys… ond nid felly i Iestyn! Dyna’r tro cyntaf… a’r olaf iddo flasu’r ffrwyth meddai! Dydy pob profiad newydd ddim yn flasus, ond yn werthfawr yn ei ffordd ei hun!






Arweiniodd hynny ni yn dwt at neges olaf Jayne sef i ni dreial rhywbeth newydd eleni. “Boed i 2024 fod yn flwyddyn llawn iechyd, profiadau newydd a llawenydd.” Diolch yn fawr iawn i’r tri am ein harwain drwy’r oedfa ac am rannu negeseuon hynod ddiddorol a gwerthfawr gyda ni.

***YN DILYN*** cyfraniad y teulu Woods, croesawyd ein diaconiaid newydd gan Beti Wyn ac aethpwyd ymlaen i rannu’r Cymun gyda phawb. Roedd hi’n fore rhewllyd iawn y tu allan, ond roedd y croeso yn sicr yn gynnes yn y Priordy y bore hwnnw.

## EIN DIACONIAID NEWYDD

Llongyfarchiadau mawr i'n diaconiaid newydd a etholwyd drwy bleidlais am gyfnod o saith mlynedd, sef Tim Hayes, Dennis Jones, Carys Morgans, Meleri Llwyd O'Leary, Emlyn Schiavone, a Luned Voyle Thomas. Fe'i derbyniwyd i'r Ddiaconiaeth gan ein Gweinidog yn yr Oedfa Gymun ar Sul cyntaf y Flwyddyn Newydd. Rhannwyd y bara a'r gwin gan y diaconiaid newydd gyda chymorth Edward Jones (Cana) a Joanne Richards (Bancyfelin). Dymunwn yn dda iddynt wrth y gwaith. Gweler eu llun yn y Papur hwn.

Diolchodd ein Gweinidog hefyd i'r tri diacon y mae eu cyfnod wedi dod i ben, sef Gwynfor Davies, Philip Jones a Catrin Heledd Jones am eu gwasanaeth ardderchog dros yr Eglwys dros y blynyddoedd.

**GYDA'N GILYDD**
**Newyddion eglwysi Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin**
***Cyfle i chi ddal i fyny â'r hyn sy'n digwydd yn eglwysi'r ardal,***
**Rhifyn Gaeaf 2024 ar gael ar Wefan cyfundeb.com**

**CWRDD DIACONIAID AC YMDDIRIEDOLWYR Y PRIORDY**

**Nos Fercher 28 Chwefror 2024 am 7.30 dros Zoom**

**Os oes unrhyw faterion yr hoffech i'r diaconiaid a'r ymddiriedolwyr eu trafod, yna rhowch wybod i'r Ysgrifennydd Gohebol mewn da bryd os gwelwch yn dda.**

**CWRDD DIACONIAID A BLAENORIAID AC YMDDIRIEDOLWYR GOFALAETH CAERFYRDDIN A BANCYFELIN**

***Nos Fercher 20 Mawrth 2024 – Bancyfelin – 7.30***



## PANED A SGWRS



**Bore Mercher - 10.30 - Gwesty'r Llwyn Iorwg**
**21 Chwefror 2024**
**Cyfle am baned, sgwrs a myfyrdod byr**

**Elinor Wyn Reynolds…**



## Rhywbeth Newydd

***BLWYDDYN NEWYDD,*** trio rhywbeth newydd. Dyna oedd arwyddair y Priordy ar ddydd Sul 14 Ionawr pan wnaeth pawb ddod i Ganolfan Magu (yr hen ganolfan ddydd) y tu cefn i Marks and Spencers am oedfa deulu. Mae trio rhywbeth newydd yn beth da, a dydyn ni byth (yr un ohonom) yn rhy hen i drio rhywbeth



newydd, neu beth yw'r pwynt bod yn fyw? Dyna fi wedi athronyddu ychydig o fewn y brawddegau cyntaf. Weithiau mae bod tu allan i'ch *comfort zone* yn beth da. Fel dywedodd yr awdur Susan Jeffers, 'Feel the fear and do it anyway.'

Mae eglwys y Priordy yn awyddus i weld sut beth yw hi i addoli y tu allan i adeilad y capel a hynny am sawl rheswm. Mae'n gyfle i ni ddod ynghyd fel eglwys (h.y. criw o bobl) a chynnal ein cwlwm perthyn y tu hwnt i adeilad y capel - wedi'r cyfan POBOL yw eglwys - mae'n gyfle i ni weld ein teulu eglwysig mewn cyd-destun arall. Mae'n gyfle i ni flasu rhywle arall, gan gofio bod ein hadeilad ni, er mor annwyl i ni, yn heneiddio ac yn dod yn gynyddol feichus o ran costau, adnoddau ac amser. Bydd yn rhaid i ni wynebu cwestiynau anodd yn y dyfodol (gweddol agos?) ac felly, mae bod yn barod am hynny, ac yn hyblyg ein meddyliau, yn hanfodol bwysig os ydyn ni am barhau fel eglwys i'r dyfodol mewn modd iach a chryf. Mae defnyddio safle newydd ar gyfer ein hoedfaon hefyd yn gyfle i ni estyn mas i'r gymuned Gymraeg yn y dref mewn lle canolog, dewch i ymuno gyda ni wrth i ni brofi rhywbeth newydd.

A chan nad ni sydd berchen yr adeilad, roedd popeth yno i ni'n barod. Dyna'i gyd oedd yn rhaid i ni wneud oedd troi lan, gosod y cadeiriau, trefnu te a choffi a bisgedi a dod i addoli Duw. Ac ar y diwedd, dim ond cloi'r drws a gadael oedd yn rhaid i ni wneud heb yr un gofal am do na bondo, neu damprwydd na boeler.

Beth bynnag, dyma ichi flas o'r gwasanaeth yn y ganolfan.

Cychwynnnwyd y gwasanaeth yn y modd arferol drwy adrodd, ‘Cyntaf gair a ddywedaf …’ Ac wrth lefaru’r geiriau hynny, mi ddaethon ni â Llyfr Du Caerfyrddin, holl hanes y Priordy, a’r Gymraeg, i’r ystafell olau honno yn y ganolfan.

Cyhoeddwyd yr emyn cyntaf ‘Cariad Crist’ yn hyderus gan Aneirin ac fe fwriwyd mewn i’r gwasanaeth gyda hwyl a Band y Priordy’n cyfeilio i ni. Diolch arbennig i’r band - Tomos Huw ar y drymiau, Angharad Wyn ar yr allweddellau, Gareth Gravell ar y gitâr fas, Ethan ar y ffidil a Jayne ar y ffliwt - am gerdded gyda ni bob cam o’r ffordd. Yna, ar ôl y cyhoeddiadau a’r casgliad a wnaethpwyd gan Ifan a Cadi, cyhoeddodd Greta Wyn yr emyn ‘Duw sy’n codi ei dŷ’ mewn llais uchel heb iddi ddefnyddio’r un sgrapyn o bapur.

Cawsom hanes gan Greta a Martha Nel am ddyn a rannodd ei arian rhwng tri gwas; pum sach o arian i’r cyntaf, dwy sach i’r ail ac un sach i’r olaf. Aeth y gwas cyntaf a’r ail ati i brynu a gwerthu gyda’u harian er mwyn gwneud mwy o arian ond fe gladdodd y trydydd gwas ei arian ef mewn twll yn y ddaear a’i adael yno. Ymhen amser, daeth y meistr yn ei ôl a gofyn i’r gweision beth wnaethon nhw gyda’u harian. Roedd y ddau was cyntaf wedi cynyddu eu harian ac roedd y meistr yn falch, ond doedd ganddo ddim i’w ddweud wrth y gwas a gladdodd ei arian mewn twll a’i adael, galwodd y gwas hwnnw’n ddiog a chymryd yr arian i’w roi i’r gwas cyntaf. Anfonodd y trydydd gwas i ffwrdd yn waglaw. Dyma ni’n dysgu am wneud y gorau o’r hyn sydd gennym, ein doniau a’n talentau, er lles eraill ac er clod i Dduw.



Yna fe wylion ni ddwy ffilm gartŵn, un gyda chân am y talentau sydd gennym, ac un am aelodau o gorff Crist, sef yr eglwys. Byrdwn y neges oedd bod gennym ni gyd ein rhan a’n talentau unigol a hefyd y dylem ni fod yn ni ein hunain am mai dyna mae Duw am i ni fod.

Gweddïwyd gan Beca a’n harweiniodd ni i feddwl am bob dim sydd gennym ni o ran ein talentau ac i ddiolch i Dduw amdanynt. Yna, cyhoeddodd Meredydd yr emyn ‘Mae ’nghalon mor llon’ yn glir a da. Gofynnodd Beti-Wyn i’r plant agor bocs mawr oedd ganddi, y tu blwch llai, a thu mewn i hwnnw, wel, roedd blwch llai fyth – yn y diwedd roedd saith blwch wedi’u hagor i gyd a dyma Ifan yn

dod o hyd i ddarn papur gyda'r gair 'DONIAU' arno. Aeth Beti-Wyn ymlaen i sôn am ddoniau neu dalentau pob un ohonom. Roedd y plant yn ddawnus mewn sawl ffordd, yn medru dawnsio, canu, arlunio, chwarae pêl ac Ilan yn arbennig o ddawnus ar glirio bocsys. Mae'n ddawn i estyn llaw i bobl mewn cyfeillgarwch, cynnig llaw agored a chyfarch pobl, y mae gweddïo yn ddawn hefyd. Yna soniodd bod gan bawb yn yr eglwys eu doniau hefyd, o'r hynaf i'r ieuengaf, a phan ein bod ni'n dod ynghyd fel cymuned, yna rydyn ni gyd yn elwa o'r talentau unigol. Doedd ond rhaid edrych o gwmpas yn yr oedfa hon i weld sut mae ein talentau ni fel eglwys wedi'u cyfuno i greu profiad ardderchog ar y bore Sul.

***A CHYDA'R FENDITH***, daeth yr oedfa i ben ac fe gafwyd cyfle i ni gymdeithasu a rhannu paned a bisgeden gyda'n gilydd mewn awyrgylch hamddenol a chroesawus yng Nghanolfan Magu. Am brofiad newydd ardderchog a gafwyd. Dyma ni'n cychwyn ar gyfnod cyffrous yn hanes eglwys y Priordy. Dewch gyda ni!





***BLYCHAU STAMPIAU A CHETRYS Y PRIORDY***

***Croeso i chi gyfrannu – y cyfan yn mynd at achoson da***

Eisiau gwybod mwy am Gyfundeb Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin?

Trowch at: cyfundeb.com



**GWASANAETH PASG CARTREF PLAS Y DDERWEN**

**Prynhawn Gwener – 15 Mawrth 2024 – 2.30 o'r gloch *gyda'n* Gweinidog**

**Croeso i bawb**




**AR Y WE: www. priordy.org *(yn cynnwys Papur Priordy)***

**D JACOB DAVIES**
**(1916 – 1974)**

***Gweinidog, Bardd, Storïwr a Darlledwr***



Fe'i ganed ar 5 Medi 1916 ym Mhenlon, Tre-groes, ger Llandysul, yn un o bump o blant i David a Mary Davies.
Cafodd ei addysg yn Ysgol Gynradd Tre-groes ac Ysgol Sir Llandysul ac yna Goleg Presbyteraidd Caerfyrddin ac, fel rhan o'r cwrs yno, Goleg y Brifysgol Abertawe, i baratoi'i hun ar gyfer y weinidogaeth. Derbyniodd alwad i Gapel Bach New Street Aberystwyth ym 1941 tra oedd yn astudio ar gyfer gradd yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Aberystwyth. Ym 1945, symudodd i weinidogaethu yn Highland Place a'r Hen Dŷ Cwrdd Aberdâr ac yna ym 1957 i **Alltyblaca,** Capel y Bryn, Cwrtnewydd a Chwmsychbant lle bu nes iddo farw'n ddisymwth iawn ar 11 Chwefror 1974, sef hanner can mlynedd yn ôl i'r mis hwn. Cynhaliwyd ei angladd yng Nghapel y Bryn ac fe'i claddwyd ym Mynwent Bwlchyfadfa, Talgarreg. Un a gymerodd ran yn ei angladd oedd yr Athro D Pennar Davies, Coleg Coffa, Abertawe ar y pryd.



Roedd D Jacob Davies yn Undodwr o argyhoeddiad a bu'n gefn i'r enwad ar hyd y blynyddoedd. Yn Gymro i'r carn, gallai wasanaethu'n rhwydd yn y ddwy iaith a threuliodd gyfnodau fel gweinidog mewn capeli Saesneg yn Aberystwyth ac Aberdâr. Fe oedd llywydd rhyng-genedlaethol enwad yr Undodwyr adeg ei farw – y Cymro cyntaf i dderbyn yr anrhydedd. Fe hefyd oedd golygydd *Yr Ymofynnydd*, cylchgrawn yr enwad yng Nghymru, swydd y bu ynddi ers dros ugain mlynedd. Roedd ar fin trefnu cynnwys Capel Parc-y-felfed, Stryd Mansel, Caerfyrddin, dan ei weinidogaeth gyda'r nod o adfywio'r lle ond, yn anffodus, ni chafodd fyw i wireddu hyn.

Arwyr mawr Jacob Davies oedd y gweinidogion Undodaidd hynny a fu, fel yntau, yn *'gryf o blaid y gwan'*. Personau fel Thomas Evans (Tomos Glyn Cothi) – gŵr o Wernogle a gweinidog yng nghyfnod y Chwyldro Ffrengig, Tomos Emlyn Tomos, gweinidog Cribyn a diwygiwr cymdeithasol yng nghyfnod terfysg Beca, William Thomas (Gwilym Marles) - gweinidog Llwynrhydowen adeg y Troad Allan ym 1876, a hefyd y **Dr Joseph Priestly,** y diwinydd a'r gwyddonydd a ddarganfyddodd ocsigen ym 1774.



Fel y dywed Teleri Bevan yn y gyfrol deyrnged **Dyn Bach o'r Wlad (gol. J Eric Jones 1984)** roedd Jacob Davies '*yn gyfathrebwr wrth reddf'* a'r ddawn brin ganddo i fedru dal a chynnal sylw'r unigolyn neu'r gynulleidfa. Yn ddigrifwr heb ei ail, dawn a ddaeth ag e i amlygrwydd yn y lle cyntaf, roedd yn feistr ar drin a thrafod geiriau.

Gwnaeth gyfraniad disglair i'r byd darlledu – ar y radio ac ar y teledu -. gan gynnwys cadeirio'r rhaglen radio boblogaidd honno *Penigamp*. Fe gyflwynodd y rhaglen gyntaf a ddaeth o stiwdio Teledu Cymru. Cyfrannodd yn helaeth fel sgriptiwr a chyhoeddodd nifer mawr o lyfrau ac erthyglau. Bu'n olygydd papur cenedlaethol y pensiynwyr yng Nghymru, *Pensioner of Wales*, am flynyddoedd lawer a bu'n frwd dros eu hawliau ar hyd y blynyddoedd. Cyfrannodd erthygl wythnosol i'r *Cymro* am gyfnod o ddeng mlynedd. Yntau hefyd a gyfansoddodd gân genedlaethol mudiad Merched y Wawr (*O eiriau mwyn fy iaith..*.). Yn feirniad, yn llenor, yn fardd, roedd yn aelod o'r Orsedd a, bu'n arwain Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, yr Eisteddfod Genedlaethol ei hunan ac Eisteddfod Ryngwladol Llangollen. Roedd yn genedlaetholwr pybyr a bu'n un o brif sefydlwyr y mudiad i godi Ysgol Gymraeg yn Aberdâr yn ystod ei gyfnod yno. Fel yr awgryma D Elwyn Davies yn y gyfrol ***Cewri'r Ffydd (1999)*** 'mae'n anodd crisialu'r holl swyddi a ddaliodd Jacob Davies, yr anrhydeddau a ddaeth i'w ran a'i gyfraniad i grefydd, diwylliant, cymdeithas a chenedl'. Wedi dweud hynny, mae'n hawdd casglu mai'i gariad cyntaf oedd y weinidogaeth a'r enwad y bu mor deyrngar a thriw iddi.

Dyn byr o gorffolaeth oedd Jacob davies – ond meddai ar bersonoliaeth fawr. Priododd Ann Leer Lewis yng Nghapel

Bwlchyfadfa. Un a gymerodd ran yn y briodas oedd y Prifardd Dewi Emrys a Jacob Davies ddaeth o hyd i gwpled o eiddo Dewi a adawodd i'w osod ar ei fedd ar ôl iddo farw, mewn rhyw ddrôr yn ei fwthyn. Cafodd Jacob ac Ann bedwar o blant, Einir, Amlyn a Hawys a Heini (gefeilliaid). Gŵr llawn doniolwch oedd Jacob ond doedd y dagrau ddim ymhell oddi wrth y wên ychwaith. Profedigaeth lem a effeithiodd yn fawr iawn arno yntau a'i briod oedd colli Amlyn, eu hunig fab, yn ddeunaw oed, ac yntau'n fyfyriwr yng Ngholeg Prifysgol Cymru Aberystwyth ar y pryd.




Ym 1995,dadorchuddiodd yr Undodwyr faen coffa er cof am Jacob Davies ym Mhenlon, Tre-groes. Fe'i dadorchuddiwyd gan Hawys a Heini a thalwyd teyrnged i Jacob Davies gan T Llew Jones a Dic Jones. Mae'r cwpled ar y garreg o waith ei gyfaill, y Prifardd Gwilym R Tilsley, Gweinidog gyda'r Wesleiaid, a fu'n cyd-weinidogaethu ag e yn Aberdâr. Canwyd yr emynau gan Gôr y Fflam , Côr yr Undodwyr a sefydlwyd gan Jacob Davies a'i briod a chôr hefyd y cyfansoddodd Jacob Davies nifer o emynau cyfoes ar ei gyfer.

Mae 11 o emynau Jacob Davies yn llyfr emynau newydd Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru, sef *Y Perlau Moliant Newydd* (gol. Alun-Wyn Dafis, 1998). A dyma ddyfynnu un ohonyn sy'n ble dros frawdgarwch a byw'n gytûn:

Hon yw fy nghân, O Dduw, yr holl genhedloedd.
Mae'n gân o hedd i Gymru ac i'r byd.
Hon yw fy ngwlad, y rhandir biau nghalon;
Hen wlad fy nhadau sydd yn drysor drud;
Ond gwyddom fod y gân a'i delfryd uchel
Yn eiddo i'r cenhedloedd gwâr i gyd.

Mae awyr las yn do uwchben ein bryniau
A'r haul yn loyw yn ein machlud mwyn.
Ond mae i wledydd byd eu herwau annwyl
A chusan diwedd dydd ar fryn a thwyn.
O clyw fy nghân, Ti Dduw yr holl genhedloedd
A thynn ni at ein gilydd er Dy fwyn.

Un gân o fawl all lunio gwell yfory
A byd cytûn na fu ei fath erioed,
Ac yn ei swyn cawn chwilio am y fendith
A ddaw â harddwch hedd i sŵn ein troed.
Dysg ni O Dduw i weithio dros ein gilydd
Fel un gymdeithas gyfan yn ddioed.

**PANED A SGWRS**



**Mae'r Paned a Sgwrs a gynhelir yng Ngwesty'r Llwyn Iorwg yn ennill mewn poblogrwydd o fis i fis! Croesawyd nifer o gyfeillion newydd i gyfarfod mis Ionawr.**

**Seiliodd ein Gweinidog ei myfyrdod ar Calon Lân. Roedd hynny'n berthnasol gan mai ym mis Ionawr y ganed Daniel James (Gwyrosydd) (1848-1920), awdur y geiriau, yn Nhreboeth, Abertawe.**
**Cawsom glywed am darddiad a neges yr emyn poblogaidd hwn.**



**Beth am ddod i'r cyfarfodydd nesaf a mwynhau'r cymdeithasu a'r myfyrdodau difyr a gawn?**

**CYMDEITHAS HEOL AWST**
**Dydd Mawrth, 20 Chwefror 2024 – 2 o'r gloch**
**Cyfarfod gydag Adam yn yr Ardd**



**Y GYMDEITHAS**
**Dydd Mercher 6 Mawrth 2024**
**Clwb y Cwins – 12.30**



**Dathlu Gŵyl Dewi**

**CAWL A CHWIS**
**gyda**
**TUDUR DYLAN JONES**
**Tocynnau: £10**



# PANED A SGWRS MIS IONAWR















## CWIS Y GWYRTHIAU

# Tybed pa mor gyfarwydd ydych chi â’r gwyrthiau yn fersiwn beibl.net?!!!!

# Llanwch y Bylchau! Rhowch gynnig arni! Ceisiwch ddyfalu! Pob lwc!!

## *Iesu'n troi Dŵr yn Win*

Dau ddiwrnod wedyn roedd priodas yn ----, pentref yn Galilea. Roedd mam Iesu yno, ac roedd Iesu a'i ddisgyblion wedi derbyn --------- i'r briodas hefyd. Pan doedd dim gwin ar ôl, dyma fam Iesu'n dweud wrtho, “Does ganddyn nhw ddim mwy o win.” Atebodd Iesu, “Mam annwyl, gad lonydd i mi. Paid busnesa. Dydy fy amser i ddim wedi dod eto.” Ond dwedodd ei fam wrth y gweision, “Gwnewch beth bynnag fydd yn ei ddweud wrthoch chi.” Roedd ---- ystên garreg wrth ymyl (y math sy'n cael eu defnyddio gan yr Iddewon i ddal --- ar gyfer y ddefod o ymolchi seremonïol). Roedd pob un ohonyn nhw'n dal rhwng wyth deg a chant dau ddeg ----. Dwedodd Iesu wrth y gweision, “----- yr ystenau yma gyda dŵr.” Felly dyma nhw'n eu llenwi i'r top. Yna dwedodd wrthyn nhw, “Cymerwch beth ohono a mynd ag e i lywydd y ----.” Dyma nhw'n gwneud hynny, a dyma llywydd y wledd yn ------ dŵr oedd wedi ei droi'n win. Doedd ganddo ddim syniad o ble roedd wedi dod (ond roedd y gweision oedd wedi codi'r dŵr yn gwybod). Yna galwodd y priodfab ato ac meddai ----, “Mae pobl fel arfer yn dod â'r gwin ----- allan gyntaf a'r gwin rhad yn nes ymlaen ar ôl i'r gwesteion gael gormod i'w yfed. Pam wyt ti wedi cadw'r gorau i'r diwedd?” Y wyrth hon yn Cana Galilea oedd y gyntaf wnaeth Iesu fel arwydd o pwy oedd. Roedd yn dangos ei ysblander, a dyma'i ddisgyblion yn credu ynddo.

**Atebion ar Dudalen 31**

## OEDFA GYMUN DECHRAU'R FLWYDDYN




## EIN DIACONIAID NEWYDD



# Ifanc@Priordy

## Helo bawb!

**Wel dyma ni wedi cychwyn ar dymor newydd yn yr Ysgol Sul gydag amserlen llawn o bethau cyffrous wedi eu trefnu ar eich cyfer. Gobeithio y cawn eich cwmni mor aml â phosib!**

**Arolygwyr Newydd**

Diolch i Angharad a Lowri am gytuno i fod yn Arolygwyr yr Ysgol Sul yn dilyn ymddeoliad Jayne. Gwych iawn, a phob lwc gyda'r gwaith. Diolch i'r rhieni eraill sydd wedi bod mor barod i helpu hefyd. Rwy'n siŵr bod tymor ardderchog o'n blaenau.





Beth yw eich hoff fwyd? Tybed a fedrwch fyw heb un o'ch hoff fwydydd am 40 diwrnod? Enw'r 40 diwrnod yn arwain i fyny tuag at Y Pasg yw'r 'Grawys'. Beth am gefnogi yr her hon am 40 diwrnod?

# HER Y GRAWYS 2024

**Rhoi heibio un darn o fwyd yn ystod Tymor Y Grawys a'i gyflwyno i'r banc bwyd. Beth amdani?!**

# Chwilotair Llythyren 'N'

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Z | N | A | T | H | A | N | I | E | L | N | R | A | P |
| R | A | N | F | N | Y | O | Q | A | H | I | D | K | Z |
| W | S | U | R | E | K | B | C | T | B | C | K | I | U |
| R | A | M | L | G | D | N | F | U | H | A | R | G | Y |
| C | R | E | C | E | K | Z | A | Q | O | N | U | D | N |
| O | E | R | N | S | L | X | E | O | H | O | N | N | I |
| N | A | I | N | E | X | C | H | Z | M | R | A | A | C |
| O | I | P | T | A | W | B | E | S | N | I | S | D | O |
| S | D | A | V | J | I | Y | T | N | E | Z | A | A | D |
| N | Q | I | Y | N | D | N | D | U | B | K | R | B | E |
| O | H | N | E | F | O | E | D | D | O | F | E | R | M |
| A | H | W | N | E | H | E | M | E | I | A | T | Z | U |
| S | Q | T | D | J | W | G | Y | A | F | O | H | R | S |
| N | A | H | U | M | T | P | G | H | T | G | N | X | M |

NATHANIEL
NEWYDDION
NICODEMUS
NEHEMEIA
NEGES
NASAREAID
NASARETH
NOS
NOB
NOA
NEBO
NADAB
NAHUM
NAOMI
NICANOR

**Gŵyl Dewi**

Cofiwch am eich Gwasanaeth Gŵyl Dewi. Bore Sul 25 Chwefror am 10 o'r gloch yng Nghapel Heol Awst gyda Martin Geraint! Croeso i chi wisgo eich gwisgoedd traddodiadol Cymraeg.



**Calender mis Chwefror/Mawrth**

| | |
|---|---|
| Chweftror 4 | Ysgol Sul gyda Carys D |
| Chwefror 11 | Hanner tymor – Dim Ysgol Sul |
| Chwefror 18 | Ysgol Sul gyda Lowri |
| Chwefror 25 | Gwasanaeth Gŵyl Dewi y dref – Capel Heol Awst |
| Mawrth 3 | Ysgol Sul gyda Hanna ac Iwan |

**Hwyl tan tro nesaf,** Beti - Wyn

# OEDFA DEULU YNG NGHANOLFAN LLES MAGU YN Y DREF







**Dod i adnabod rhai o'n haelodau**

**Papur Priory'n sgwrsio â**

**LLINOS JONES**



**PP: Rych chi'n hanu o ardal hardd o Gymru, Llinos. Soniwch ychydig am fro eich mebyd.**

**LlJ:** Cefais fy ngeni a'm magu yn Llanfairpwllgwyngyllgogerychwyrndrobwyllsantysiliogogogoch (sori oedd rhaid rhoi'r cyfan unwaith!) Ynys Môn. Mae fy rhieni, Arfon ac Elvera, yn dal i fyw yno a bob yn hyn a hyn byddwn yn dychwelyd yno i ymweld â nhw. Mae'n daith hir, a gan fod Nel a thueddiad yn ei blynyddoedd cynnar i fod yn anhwylus wrth deithio, dydy hi ddim o reidrwydd yn daith hyfryd bob tro, yn benodol o ystyried ei bod yn 4 awr. Mae Llanfairpwll yn bentref mawr ar arfordir deheuol yr Ynys ac yn aml iawn dros y bont y bydd brodorion yn mynd i siopa yn hytrach nag ymhellach i mewn i'r ynys. I rai sydd yn anghyfarwydd â'r Ynys mae'n syndod ganddynt ei bod yn Ynys mor fawr gyda phum ysgol uwchradd pedair dwyieithog ac un uniaith Gymraeg. Mae moch Môn fel fi yn hynod o falch o'r ffaith ein bod yn hanu oddi yno ac yn gwisgo ein bathodyn o fod yn foch Môn gydag anrhydedd er nad yw'n ymddangos felly i eraill bob amser! Treuliais fwyafrif fy mhlentyndod yn Llanfairpwll gyda PHOB dydd Sadwrn yng Ngwalchmai a'r Fali yn ymweld â Neiniau a Theidiau ac mae'r pentrefi hynny'n agos iawn at fy nghalon hefyd a'r cymeriadau diddorol a lliwgar y deuthum ar eu traws wrth aros am wythnos ym mhob pentref bob haf. (Roedd Gethin fy mrawd yn mynd at un Nain a Thaid am wythnos a fi at Nain arall ac yna roedd Dad a Mam yn ein cyfnewid ni ar y penwythnos yn y canol.) Mae'r atgofion o gael aros i fyny tan hanner nos gyda Taid i wylio'r paffio a chwarae Gin Rummy gyda Nain a dysgu gwau yn rhai melys iawn. Byddai  Swyddfa'r Post yn Y Fali a'r teganau diddorol roedd Nain Nansi yn gadael i mi eu prynu fel cerdded i mewn i'r nefoedd i blentyn. A chan fod Y Fali yn bentref bach sy'n agos at Gaergybi byddai Nain a fi'n mynd ar y bws 'double decker' i'r llyfrgell i ddarllen ac yna byddem yn bwyta



brechdanau tomato gyda halen, pupur a finegr wedi dod adref. Cefais fy addysg yn Ysgol Gynradd Llanfairpwll, ysgol o tua 300+ o blant ar y pryd yn y ffrwd Gymraeg, mae bellach yn cymysgu ffrydiau i geisio hybu'r Gymraeg ymysg y rhai nad ydynt yn dod yn wreiddiol o gartrefi Cymreig. Ysgol David Hughes oedd yr ysgol uwchradd a fynychais a oedd ym Mhorthaethwy - y pentref cyfagos. Mynychais y ffrwd Gymraeg yno am saith mlynedd. Roeddwn yn lwcus iawn o gael brawd mawr oedd wedi bod yn yr ysgol ers dwy flynedd o'm blaen a gwyddwn y byddai'n sicrhau fy mod yn iawn os byddai rhywbeth yn codi.

**PP: Beth am y capel?**

**LlJ:** Mae fy rhieni'n dal yn aelodau yng Nghapel Methodistiaid Rhos y Gad Llanfairpwll fel y bues i cyn symud fy aelodaeth i'r Priordy ac yno priododd Elfyn a fi yn 2009. Cefais fagwraeth Gristnogol gefnogol arbennig yno gyda Mr Bennet Jones, Mr Evans, a Mr Jim Clarke yn weinidogion a bugeiliaid da iawn. Yn wir, roedd cymaint o fynd ar y Capel fel roedd hi'n anodd cerdded trwy'r pentref neu fynd i siop neu'r ysgol heb gwrdd â rhywun oddi yno, ac yn wir byddai pobl yn edrych ar ôl ei gilydd. Er enghraifft, un o'r blaenoriaid, Mr Rheinallt Thomas, ysgrifennodd fy ngeirda pan ymgeisiais am fy nghwrs ôl-radd. (Mae'r capel yn f'atgoffa fi'n fawr iawn o'r Priordy yn hynny o beth.)



**PP: Astudiaethau Crefyddol oedd eich pwnc ym Mhrifysgol Bangor. Fwynheuoch chi'r cwrs?**

**LlJ:** Roeddwn fod i ddilyn Astudiaethau Crefyddol dw i'n credu. Wrth wneud dewisiadau TGAU ni roddais Astudiaethau Crefyddol i lawr yn wreiddiol. Newidiais fy meddwl y munud olaf, - yr un modd â Lefel A. Wrth ystyried gyrfa, rhywbeth yn y byd meddygol oedd fy mwriad cychwynnol - Ffisiotherapydd, Bydwraig neu Radiograffydd. Dw i ddim yn cofio newid fy meddwl a dewis Astudiaethau Crefyddol, dim ond cofio ysgrifennu fy natganiad UCAS ar Astudiaethau Crefyddol. Mwynheuais bob munud ym Mangor gyda'r adran wych - Dr Catrin Haf, Dr Densil Morgan, Y Parchedig John Gwilym Jones, Dr Geraint Tudur, Dr Robert Pope a'r Athro Gareth Lloyd Jones (ydw i wedi gollwng digon o enwau?!) yn darlithio

mewn modd mor fyw ar bwnc a sylfaenwyd mewn hanes mor bell yn ôl a'i wneud mor gyfoes a diddorol.

**PP: Cwrddoch chi ag Elfyn, eich gŵr, yn y Coleg, ond nid ar yr un cwrs! Soniwch ychydig am ei gefndir yntau a'i waith bellach.**
**LlJ:** Cyfrifydd yw Elfyn, yn enedigol o Sarn Mellteyrn ym Mhenllyn. Aeth i Ysgol Eglwysig Pont Y Gof, Ysgol Botwnnog ac yna Goleg Meirion Dwyfor cyn Prifysgol Bangor. Mae ei Fam, Jane, yn dal i fyw ym Mhen Llŷn ynghyd â mwyafrif ei deulu ond bod ei frawd iau, Arwyn, yn athro sy'n arwain ar dechnoleg yn Ysgol Anghenion Arbennig Y Deri yng Nghaerdydd. Cwrddais i ag Elfyn yn yr enwog JMJ ym Mangor yn y flwyddyn 2000. Roedd yn astudio Cyfrifeg a Rheolaeth yno ac mae bellach yn gweithio ers bron i 20 o flynyddoedd gyda chwmni cyfrifeg Llŷr James yn y dref. Yn dilyn graddio'r ddau ohonom yn 2003 symudon ni i Gaerfyrddin i Heol Parcmaen.

**PP: Rych chi wedi bod yn athrawes ers 21 o flynyddoedd ac yn Bennaeth Adran Astudiaethau Crefyddol yn Ysgol y Strade, Llanelli ar ôl cyfnodau yn Ysgol Dyffryn Teifi ac Ysgol Dyffryn Aman. Pa mor heriol yw addysgu Astudiaethau Crefyddol erbyn hyn ac a yw'r pwnc ei hunan wedi newid dros eich blynyddoedd yn y proffesiwn?**
**LlJ:** Mae dysgu pam mae pobl yn gwneud beth maen nhw'n ei wneud, a sut maen nhw'n byw wastad o ddiddordeb i ddisgyblion am fod y natur ddynol yn fusneslyd. Mae Astudiaethau Crefyddol wedi newid yn fawr iawn yn y blynyddoedd dw i wedi bod yn addysgu. I ddechrau nid Astudiaethau Crefyddol yw enw'r pwnc bellach ond **Crefydd Gwerthoedd a Moeseg**, ac mae'n cwmpasu mwy a mwy o gredoau a chrefyddau ( ac felly y dylai fod os ydym yn fyd cynhwysol). Yn wir, does dim un noson rieni rydw i wedi bod yn rhan ohoni yn yr 20+ o flynyddoedd diwethaf ar gyfer B 7-13 ble nad oes yr un rhiant wedi dweud "Wel, mae wedi newid ers fy nghyfnod i! Ysgrythur oedd e pryd hynny." Rydym yn parhau i edrych ar ysgrythurau sanctaidd nifer o grefyddau ond yn gwneud hyn yng nghyd-destun bywydau bob dydd a chredoau credinwyr ac anghredinwyr hefyd ar gyfnodau.

**PP: Mae'r ddau ohonoch yn rhieni i Noa (11 oed) a Nel (8 oed) sy'n aelodau yn ein Hysgol Sul.  A fu dod o hyd i Ysgol Sul yng Nghaerfyrddin yn bwysig i chi?**

**LlJ:** Roedd mynychu Capel yn bwysig iawn i mi ac am gyfnod yn fy ugeiniau mynychais Gapel Heol Dŵr, yn wir yno y bedyddiwyd Noa. Byddai Noa fel babi yn dod gyda mi i'r Capel ac yn eistedd yn ei bram yn edrych ar Feibl clawr caled i blant bach tra oedd pregethwyr gwadd gwahanol yno. Yn y diwedd sylweddolon ni fod angen Ysgol Sul ar Noa i'w feithrin yn y Ffydd fel y cawsom ni fel plant, felly aethom ati i ganfod Ysgol Sul Cymraeg (roedd hynny'n holl bwysig i ni fel teulu hefyd). Cawsom, fel y gwyddoch chi oll sy'n darllen hwn, groeso mawr gennych chi oll yn y Priordy ac am hynny byddwn bob amser yn ddiolchgar.

**PP:Rych chi hefyd yn cynnig help llaw yn ein Hysgol Sul o bryd i'w gilydd. Ydych chi'n mwynhau'r profiad?**
**LlJ:** Mae addysgu yn yr ysgol Sul yn ddiddorol bob amser, Credaf fod pawb yn gwybod pan ydw i wrthi gan fod yna'r llanast rhyfedda - o ddarnau polysteirin mân ar y llawr i beli papur yn hedfan, glud hylifog, gwn glud neu sprinkles bisgedi a chant a mil o bethau! Mae'n newid i mi gael addysgu rhai bach sy'n llawn egni gan mai arddegwyr sy gen i ddydd i ddydd - ond mae bod yn eu cwmni hwy hefyd yn hyfryd. Mae arddegwyr yn gallu trafod pynciau mawr mewn ffordd unigryw a diddorol bob amser, ond mae'n newid bach i ddysgu'r Ysgol Sul bob hyn a hyn . Mae wastad yn sbort hefyd, er y glanhau rwy'n ei achosi i bawb wedyn – sori!

**PP: Rych chi'n dilyn gwersi Arwyddo (BSL) er mwyn helpu plant byddar. Tybed beth fu'r symbyliad i chi wneud hyn?**
**LlJ:** Roeddwn yn ymwybodol o arwyddo ers yn blentyn gan i fy modryb Owena gydweithio â merch fyddar yn ei hieuenctid ac roedd hi wedi pigo darnau i fyny. Rwy'n cofio gwylio'r ddwy yn cyfathrebu wrth arwyddo a dim syniad gen i beth oeddent yn ei ddweud. Rai blynyddoedd yn ddiweddarach roeddwn mewn noson rieni blwyddyn 9 a daeth rhieni merch i eistedd wrth fy mwrdd gyda hi a chyfieithydd gyda hwy. Doedd y ferch ddim yn fyddar ond roedd y ddau riant. Doedd gen i ddim syniad ei bod hi yn CODA ( Child Of Deaf Adult) Y noson honno wrth i mi geisio sgwrsio gyda hwy ac esbonio i'r cyfieithydd penderfynais na fydden nhw byth yn gallu gwneud unrhyw beth i newid eu sefyllfa hwy, ond gallwn i, felly fe es i a fy ffrind Gwawr i wersi lefel 1 i ddysgu arwyddo. Mae wedi bod



yn fuddiol iawn i mi ar hyd y blynyddoedd. Am gyfnod bues yn ei ddysgu amser cinio ac ar ôl ysgol fel rhan ychwanegol i ddisgyblion oedd yn dymuno cael cyflwyniad i'r iaith, a dros y 6 mlynedd diwethaf rydw i wedi ei ddefnyddio yn ddyddiol gydag un o fy nisgyblion sydd â Syndrom Down ac yn dewis weithiau i arwyddo pan mae'n canfod cyfathrebu ar lafar yn anoddach. Eleni penderfynais ailgydio yn yr astudiaethau hyn a phob nos Fercher nawr fi yw'r disgybl wrth sgrîn Zoom gyda thua 20 aelod arall dros Brydain yn dysgu arwyddo ymhellach gyda menyw fyddar o Loegr. Alla i ddim dweud celwydd ond mae'n fwy heriol y tro hwn. Efallai am fy mod yn hŷn, efallai am ei fod rhwng 7 a 9 ar nos Fercher a minnau wedi blino ar ôl gwaith ac yna fynd â'r plant i bob man ar ôl hynny, neu efallai am mai arwyddo Saesneg ydw i'r tro hwn yn hytrach na'r Gymraeg a bod rhai o'r arwyddion yn wahanol. Serch hyn. Beth bynnag y rheswm rwy'n mwynhau ac yn credu y bydd o werth i mi. Yn wir, mae Noa a Nel weithiau yn ymuno hefyd.

**PP: Beth yw'r sefyllfa ynglŷn â dilyn gwersi fel hyn drwy gyfrwng y Gymraeg?**
**LLJ:** Mae gwersi BSL Cymraeg i'w cael ond eu bod yn Abertawe. Roedd y teithio yna ar nos Fercher yn rhywbeth nad oedd yn ymarferol i ni fel teulu, felly Zoom amdani i mi'r tro hwn ac mae'n addysg ynddo'i hun i ddysgu am BSL Saesneg hefyd. Mae'r Athrawes Jayne Fletcher yn adnabyddus am arwyddo ar YouTube ac yn cefnogi artistiaid sy'n canu yn eu perfformiadau weithiau, felly mae hi'n berson diddorol iawn, a chwarae teg yn cyfeirio at arwyddion Cymreig i mi yn achlysurol hefyd. Yn wir mae fy enw arwydd i yn golygu Cymraes! (Enw arwydd yw arwydd mae'r gymuned fyddar yn ei ddefnyddio ymysg pobl maent yn eu hadnabod i gyfeirio at berson yn hytrach na sillafu eu henw llawn bob amser. Mae'r gymuned fyddar ar zoom yn defnyddio'r arwydd Cymraes ar fy nghyfer i - a dw i wrth fy modd!)

**PP: Bu symud o Ynys Môn a Gwynedd i Sir Gâr yn dipyn o naid i'r ddau ohonoch. Sut ydych chi'n mwynhau bywyd yng Ngorllewin Cymru?**
**LlJ:** Symudodd Elfyn a fi a'n holl eiddo i lawr o'r gogledd mewn car Fiat Cinquecento bach ( i'r rhai ohonoch sydd yn anghyfarwydd

â cheir mae hyn yn un o’r ceir lleiaf sydd i gael- dychmygwch focs esgidiau ar olwynion a fyddwch chi ddim yn bell o’ch lle!.) Roedd pob twll a chornel o’r car yn cynnwys clustog neu fwg neu hosan o ryw fath a finnau yn gyrru i lawr am y tro cyntaf fy hun.  Cawsom lawer o hwyl a chyfnodau heriol hyd nes i ni gael swyddi parhaol ond yma rydym nawr ers 20+ mlynedd bellach, ganed ein plant yng Nghaerfyrddin ac eleni byddwm wedi byw yn y De yn fwy nag ydym wedi byw yn y Gogledd, er nad ydw i yn meddwl bod hynny yn stopio ni fod yn Gogs rhywsut!




**PP: Mae’r ddau ohonoch yn brysur rhwng eich gwaith a’r teulu ond, pan ddaw oriau hamdden tybed beth sy’n mynd â’ch bryd?**

**LlJ:** Pêl-droed yw bryd Elfyn, mae’n chwarae bob nos Lun gyda thadau'r Dderwen ac yn mwynhau’n fawr, yn wir chwaraeon a ffilmiau yw ei bethau pan mae’n cael 5 munud sbâr o hebrwng y plant hwnt ac yma. Darllen yw fy hoff beth i, does dim yn well gen i na dianc mewn i lyfr, hynny ynghyd ag unrhyw beth creadigol fel dylunio, gwau , gwnïo ayyb. Mae’r cyfan yn ddihangfa i mi.

**Diolch i fawr iawn i chi, Llinos, am ateb y cwestiynau. Ryn ni’n falch iawn o’ch cael chi a’r teulu yn y Priordy.**

**Bore Sadwrn 2 Mawrth 2024 am 11yb –**

**Parêd Gŵyl Ddewi Blynyddol. Cychwyn wrth Eglwys San Pedr.**



**Nos Wener 15 Mawrth 2024 – 7 o’r gloch**

**Theatr yr Egin**
**Talwrn Gŵyl Y Daffodil gyda Tudur Dylan a Mererid Hopwood.**
**Timau: Beirdd Yr Ysgol Farddol, Capel Y Priordy a Chwm Gwendraeth.**



**PANED A CHÂN**
**Ar gyfer trigolion Plas-y-dderwen a Dol-y-felin**
**yn Festri Cana – Prynhawn Mercher 1 Mal 2024 – 2.30**



# MWYNHAU YSGOL SUL CYNTAF Y FLWYDDYN NEWYDD





# RHAI MEDDYLIAU

Er ein bod yn gwybod ers amser maith bellach nad oedd pethau'n iawn yng Ngwaith Dur Ta Ta ym Mhort Talbot, roedd y newyddion drwg diweddaraf am golli swyddi yno yn dal i fod yn gryn ysgytwad. Anodd credu bod 20,000 yn gweithio ar y safle pan oedd y diwydiant yn ei anterth. Mae pethau'n edrych yn ddu iawn yn y tymor byr o leiaf ond does ond gobeithio y bydd cyfle, yn enwedig er mwyn y to sy'n codi, am fwy o swyddi gwyrdd yn y dref yn y dyfodol.



Dur Ta Ta yw un o gynhyrchwyr dur mwyaf blaengar Ewrop a'i gynnyrch yn cyffwrdd â sawl rhan o'n bywyd.

A wyddech chi, er enghraifft, fod pob darn ceiniog, dwy geiniog, pum ceiniog a deg ceiniog a gynhyrchir yn y Bathdy Brenhinol sydd mewn cylchrediad yn y Deyrnas Unedig yn deillio o ddur a wnaed ym Mhort Talbot? Ie, mae rhan o Bort Talbot ym mhoced neu fag llaw pob un ohonom!



Cwestiwn arall, wrth gwrs, yw beth wnawn ni â'r arian hyn oll!

Ryn ni'n defnyddio arian, wrth gwrs, i brynu pethau sydd eu hangen arnom, fel bwyd. Ond gwyddom yn dda am beryglon arian a'r twyll sy'n gallu deillio o'r defnydd ohono. Does ond rhaid i ni ddwyn i gof Sgandal y Swyddfa Bost i weld hynny. Ryn ni hefyd yn gallu gwastraffu arian. Byddwn o bryd i'w gilydd yn defnyddio arian i dalu am bethau sydd eu heisiau arnom ond nad oes eu hangen arnom o anghenraid! Anodd credu hefyd y bydd y ffwrneisi chwyth ym Mhort Talbot y gwariwyd arian mor sylweddol arnynt, a hynny'n lled ddiweddar, yn cau cyn bo hir!  Ar y llaw arall, mae daioni'n gallu deillio o arian. Mae'n debyg fod




ffigyrau’n dangos bod maint yr arian a gafodd ei godi yn ystod y pandemig er mwyn rhoi mwy o help i'r gwasanaeth iechyd, cleifion a chymunedau wedi torri pob record. Oes, mae dwy ochr i’r geiniog bob tro!

Os oes ychydig bach o Bort Talbot ym meddiant pob un ohonom drwy’n harian, mae’n wir dweud hefyd fod ychydig bach o Dduw ynom. Pan gawsom ein creu gan Dduw, rhoiodd ychydig o’i Hunan oddi mewn i ni, yr hyn y mae’r Beibl yn ei alw’n ysbryd neu enaid. Mae hynny’n ein gosod ar wahân i bob creadur arall ac yn rhoi urddas a sancteiddrwydd i bob bod dynol.





Ond er gwaethaf hynny ac fel yn achos yr arian, oherwydd ein ‘crwydriadau ffol’ mae yna ddeuoliaeth yn mywyd pob un ohonom. Mae hynny mor amlwg heddiw. Meddylier, er enghraifft, am yr holl bwyslais negyddol a dianghenraid sydd ar drais a lladd yn Wcráin a Gaza a mannau eraill tra bo’r cymorth a gynigir mewn banciau bwyd mewn sawl lle i helpu teuluoedd sydd mewn angen yn rhywbeth mor gadarnhaol.






Nid oes neb cyfiawn, nac oes un, meddai’r Beibl. Yr unig un perffaith yw Duw. A dyna pam mae angen Crist arnom. Fe yn unig a all ein dychwelyd at Dduw a ddangosodd ei gariad tuag atom drwy ei fab Iesu a fu farw ar y Groes er ein mwyn.



Duw drwy Iesu, sy’n gallu troi’r arian a roiodd i ni yn fendith yn ein bywydau ni ac eraill. Fe sy’n gallu cynnig canllawiau i ni ynglŷn â’r ffordd orau i fyw a’r gwerthoedd y dylem eu harddel. A Fe sy’n gallu’n harbed rhag y pethau hynny sy’n ddinistriol, a’r holl demtasiynau sy’n denu pob un ohonom, i weithredu’n groes i’w ddymuniad.

CYFRES YR EGLWYSI ANGHYFFREDIN

Edrychwn yn bennaf ar yr adeiladau

## CAPEL BEULAH, MARGAM



**Yr unig gapel wythochrog yng Nghymru. Enghraifft nodedig o'r arddull bwa crwn ym mhensaernïaeth capeli.**

**Codwyd y capel yn 1838. Caiff y capel ei alw hefyd yn Gapel y Groes am iddo gael ei leoli'n wreiddiol ym mhentref y Groes.**

**Dymchwelwyd y pentref pan adeiladwyd traffordd yr M4 ond llwyddwyd i ddiogelu'r capel a'i symud, garreg wrth garreg, ym 1976 i safle newydd mewn parc bychan ger gwaith dur Port Talbot.**

**Symudwyd y capel dros gyfnod o 15 mis a'r gost oedd £80,000.**

# PLANT DEWI

***Grŵp Cefnogaeth Deoniaeth Caerfyrddin***

PLANT DEWI
Lle Mae Teuluoedd yn Bwysig
Where Families Matter

## BORE COFFI

**Neuadd Ddinesig San Pedr**
**Dydd Sadwrn 10 Chwefror 2024 am 10**

**Mynediad - £3**

**Llywydd**
**Y Gwir Barchedig Dorrien Davies**
**Adloniant gan**
**Y Tannau Twrog**

**Pancws.. Stondinau Amrywiol.. Cacennau .. Raffl a Mwy**
**Chwarae meddal i blant**

**Tocynnau ar gael – ☎01558 668245**
***Croeso cynnes i bawb***



**Lleuwen**

**Emynau Coll y Werin**

**22 Ebrill 2024 – 7 o'r gloch**

**Capel y Priordy**

**CWIS Y GWYRTHIAU**
**beibl.net**
**ATEBION**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | Cana | 6 | Llanwch |
| 2 | gwahoddiad | 7 | wledd |
| 3 | chwech | 8 | blasu'r |
| 4 | dŵr | 9 | wrtho |
| 5 | litr | 10 | gorau |

**Gallwch hefyd droi at beibl.net – Luc 2: 1-11**

Gwefan yr Undeb: www.annibynwyr.org

**CYFRES NEWYDD O CHWE SESIWN YN ARCHWILIO GWAHANOL AGWEDDAU AR FYWYD EGLWYSIG**

***dan gynllun***

**Dysgu a Datblygu Undeb yr Annibynwyr Cymraeg**

**Y chwe sesiwn yw:**

**Gweddïo, Arwain Addoliad, Pregethu. Beth yw Eglwys, Gwaith Plant ac Ieuenctid, Gwedd Ddigidol Eglwys**

**Mae gwahoddiad cynnes i bawb i ddilyn y sesiynau hyn drwy fynd i'w Hwb Hyfforddi Lleol. Mae sawl hwb wedi'u lleoli o gwmpas y wlad. Hwb Hyfforddi Lleol ein Cyfundeb ni yw Festri Capel Cana, Bancyfelin.**

**Mae'r sesiynau'n dechrau ar Nos Lun 8 Ionawr 2024: 7-9 o'r gloch**
**Does dim angen cofrestru na mynychu pob sesiwn.**
**Cewch ddewis a dethol.**

**Amserlen**

| Dyddiad | Pwnc | Arweinydd |
|---|---|---|
| 08.01.24 | Gweddio | Parchedig Iwan Ll Jones |
| 22.01.24 | Arwain Addoliad | Paredigion Beti-Wyn James |
| 05.02.24 | Pregethu | Pachedig Robin Samuel |
| 19.02.24 | Beth yw Eglwys | Parchedig Carwyn Siddall |
| 04.03.24 | Gwaith Plant ac Ieuenctid | Parchedig Owain Davies |
| 18.03.24 | Gwedd Ddigidol Eglwys | Rhodri Darcy |

**Rhagor o wybodaeth**
**Parchedig Carwyn Siddall Cydlynydd Hyrwyddo Gweinidogaethau**
carwyn@annibynwyr.cymru / 01792 795888

**TALWRN Y BEIRDD**
**Nos Fawrth 6 Chwefror 2024**
**Festri Cana. 7pm Drysau'n agor am 6.30**



# DYLETSWYDDAU

## GOFALWR / GWRESOGWR Y MIS

| Chwefror | | Mawrth | |
|---|---|---|---|
| Gofalwr | Gwresogwr | Gofalwr | Gwresogwr |
| Gwynfor Davies | Philip Jones | Emlyn Schiavone | Huw Jones |

## BLODAU

| Chwefror | 4 | Jill Edwards | Mawrth | 3 | Rachel Davies |
|---|---|---|---|---|---|
| | 11 | | | 10 | |
| | 18 | Glenys Thomas | | 17 | Margaret Evans |
| | 25 | | | 24 | |
| | | | | 31 | Ann Thomas |

## PARATOI'R BWRDD CYMUN

| Chwefror | 4 | Bore | Meleri Llwyd O'Leary a Meinir Jones |
|---|---|---|---|
| Mawrth | 3 | Bore | Teulu Angharad Wyn |
| *Sul y Pasg* | 31 | Bore | Carys Morgans a Luned Thomas |

## DARLLENWYR

| Chwefror | 4 | Elen Marks | Mawrth | 3 | Carys Morgans |
|---|---|---|---|---|---|
| | 11 | Myfanwy Jones | *Sul y Fam* | 10 | Y Mamau |
| | 18 | Huw Michael | | 17 | Philip Jones |
| | 25 | Gŵyl Dewi | | 24 | Gill Owens |
| | | | | 31 | Luned V Thomas |

## CYHOEDDWYR

| Chwefror | Huw Michael | Mawrth | Alison Parsons |
|---|---|---|---|

*EIN* **cofion cynnes at bawb sy'n anhwylus y dyddiau hyn, yn enwedig y rhai sy'n cael neu wedi cael triniaeth yn yr ysbyty a phawb sydd mewn cartrefi ac yn gaeth i'w haelwydydd ar hyn o bryd. Cofion cynnes atoch i gyd.**



**Bu Huw Michael yn cael ei holi gan Dylan Jones ar y Post Prynhawn ar Radio Cymru ynglŷn â chyhoeddiad Llywodraeth y DU - y ffordd ymlaen i ynni niwclear. Mae'r Llywodraeth yn mynd i gyhoeddi'r bwriad i ddatblygu gorsaf niwclear newydd cyn hir. Bydd angen un bob 5 mlynedd i ddechrau cynhyrchu o 2035 ymlaen i gyrraedd y nod o 24GW erbyn 2050 (digon i gyflenwi 25% o anghenion y DU). Mae'n debygol y bydd yna Wylfa B yn rhan o'r cynlluniau, yn ogystal ag adweithyddion modiwlar bach (SMR) fydd yn cymryd llai o amser i'w hadeiladu.**



**Da gweld ieuenctid yr eglwys yn gwneud yn dda ar y cae pêl-droed. Llongyfarchiadau i Gwern O'Leary sy'n aelod o dîm Sêr Caerfyrddin dan 14 ar gyrraedd rownd gogynderfynol Cwpan Gorllewin Cymru. Ryn ni'n clwed fod Beca Elfyn a Miriam yn gwneud yn dda iawn gyda merched y Sêr dan 13 ac yn sgorio'n wythnosol a hefyd gyda thîm Ysgolion Sir Gâr.**

**Roedd Aled Evans yn un o dîm Beirdd Myrddin a fu'n cystadlu yn erbyn Beca ar Y Talwrn ar Radio Cymru ar y daith i gyrraedd y rownd derfynol a gynhelir yn Eisteddfod Genedlaethol 2024. Hon oedd gornest gystadleuol gyntaf y flwyddyn newydd. Beirdd Myrddin a orfu (o un marc) ac ymlaen â nhw felly i'r ail rownd!**

**Mae Siwan Mair Jones wedi'i dewis i ymweld â'r gwersyll lladd Auschwitz-Birkenau yng Nghwlad Pwyl fel rhan o'r rhaglen Gwersi o Auschwitz. Mae hon yn rhaglen sy'n anelu i sicrhau bod cenedlaethau'r dyfodol yn cofio ac yn dysgu o'r digwyddiadau erchyll ddigwyddodd yn y gwersyll yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Yn ogystal â'r ymweliad ei hun fe fydd Siwan, ynghyd â chyd-ddisgybl arall, yn cymryd rhan mewn cyfres o wersi a seminarau ac yn dilyn y cwrs fe fydd yn cael y cyfle i rannu ei phrofiadau gyda chymuned yr ysgol, sef Ysgol Bro Myrddin. Mae hyn oll yn y gobaith o herio gwrth-semitiaeth a hiliaeth yn ein cymdeithas a hyrwyddo'r egwyddorion o blwraliaeth a goddefgarwch. Pob dymuniad da iddi.**

**Mae 70 mlynedd wedi mynd heibio ers darlledu'r ddrama radio enwog Under Milk Wood gan Dylan Thomas. I nodi'r achlysur mae Radio 3 yn darlledu pum drama fer newydd gan awduron gwahanol yn seiliedig arni. Menna Elfyn sy'n gyfrifol am un ohonynt a bu ar Dros Frecwast ar Radio Cymru yn sôn am ei gwaith.**

**Bu Myfanwy Jones hefyd ar Dros Frecwast ar Radio Cymru yn sôn am ymgyrch newydd Mentrau Iaith Cymru ar gyfer 2024, sef Dyblu'r Defnydd. Nod yr ymgyrch hon yw dyblu'r defnydd o'r Gymraeg yn ein bywydau bob dydd. Mae'n rhan o'r ymdrechion i wireddu amcan Llywodraeth Cymru o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.**

***A* bu Caspar Rolant yn sôn am ei brofiad yntau ac eraill mewn cynhadledd ar Ieuenctid a Hiliaeth a gynhaliwyd gan CWM yn Llundain mewn rhifyn diweddar o'r Tyst.**


**Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Mawrth i'n Gweinidog neu Alun Charles**

**CYMDYMDEIMLAD**

**Estynnwn ein cydymdeimlad â Heledd a Gethin Tomos a Myfi, Deio a Bedw ar golli tad Gethin a thad-cu'r plant, sef Vernon Thomas, Felin-wen, ar 19 Ionawr 2024. Cofiwn am ei briod, Glenys, a'r teulu cyfan yn eu profedigaeth a'u hiraeth.**

**Dechrau Canu Dechrau Canmol**

**11 Chwefror 2024 – Rhaglen yn sôn am Her Y Grawys yn ein Gofalaeth**



# Y SULIADUR

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Chwefror** | **4** | ***Bore*** | Ein Gweinidog | **C** |
| | **11** | ***Bore*** | Ein Gweinidog | |
| | **18** | ***Bore*** | Y Parchedig Guto Llywelyn | |
| ***Dathlu Gŵyl Dewi*** | **25** | ***Bore***<br>***Hwyr*** | Gwasanaeth Plant yn Heol Awst am 10<br>Oedfa Gymun yn Eglwys San Pedr am 5 | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Mawrth** | **3** | ***Bore*** | Ein Gweinidog | |
| ***Sul y Fam*** | **10** | ***Bore*** | Oedfa Deulu gyda'n Gweinidog | |
| | **17** | ***Bore*** | Y Parchedig Dylan Rhys Parry | |
| | **24** | ***Bore*** | Ein Gweinidog | |
| | **31** | ***Bore*** | Oedfa'r Ofalaeth yn y Priordy gyda'n Gweinidog | **C** |

**CALENDR Y PLANT A'R BOBL IFAINC**

**✓ Ysgol Sul PIP - Pobl Ifainc y Priordy - Dim Ysgol Sul CP – Cwrdd Plant**
**OD – Oedfa Deulu GD – Gŵyl Dewi EH – Erw Hir**

| Chwefror | | | | Mawrth | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 4 | 11 | 18 | 25 | 3 | 10 | 17 | 24 | 31 |
| ✓ | - | ✓ | GD | ✓ | OD | EH | - | - |

**Rhyddheir oedfa ddigidol bob Sul**



**Y GYMDEITHAS**
**Nos Lun 5 Chwefror 2024 – 7 o'r gloch**
**Cyfarfod drwy Zoom**
**Y Parchedig Aled Davies**
**Chwilog**
**Dros ben Llestri**
**Sgwrs yn cyffwrdd â hanes llestri Cymreig a Chrefyddol eu naws**

**DIOLCH YN FAWR**

**Diolch i Beti-Wyn, Angharad Wyn a Betsan James am y lluniau'r mis hwn.**